A: Ga i fenthyg dy ffeil di?
B: Pam?
A: Mi golles i i ddwy wers mis diwetha. Ga i weld dy nodiadau di?
B: Wel – edrycha ar-lein! Dw i angen fy ffeil i wneud fy ngwaith cartref.
A: Iawn.

-

A: Ga i fenthyg dy ffeil di?
B: Pam?
A: Mi golles i ddwy wers mis diwetha. Ga i weld dy nodiadau di?
B: Cei wrth gwrs, â chroeso. Dyma ti.
A: Diolch yn fawr.

A: Gaf i fenthyg dy ffeil di?
B: Pam?
A: Collais i ddwy wers y mis diwetha. Gaf i weld dy nodiadau di?
B: Wel – edrycha ar-lein! Dw i angen fy ffeil i wneud fy ngwaith cartref.
A: Iawn.

-

A: Gaf i fenthyg dy ffeil di?
B: Pam?
A: Collais i ddwy wers y mis diwetha. Gaf i weld dy nodiadau di?
B: Cei wrth gwrs, â chroeso. Dyma ti.
A: Diolch yn fawr.

A: Gawn ni adael ein car y tu allan i'ch tŷ chi am wythnos?
B: Pam?
A: Dan ni'n mynd i ffwrdd a dach chi'n byw wrth yr orsaf.
B: Mae'n ddrwg gen i, does 'na ddim digon o le ar y stryd.
A: O wel, dim ots.

-

A: Gawn ni adael ein car y tu allan i'ch tŷ chi am wythnos?
B: Pam?
A: Dan ni'n mynd i ffwrdd a dach chi'n byw wrth yr orsaf.
B: Dim problem. Cewch, wrth gwrs.
A: Diolch yn fawr.

A: Gawn ni adael ein car y tu allan i'ch tŷ chi am wythnos?
B: Pam?
A: 'Dyn ni'n mynd i ffwrdd a dych chi'n byw wrth yr orsaf.
B: Mae'n flin gyda fi, does dim digon o le ar y stryd.
A: O wel, dim ots.

-

A: Gawn ni adael ein car y tu allan i'ch tŷ chi am wythnos?
B: Pam?
A: 'Dyn ni'n mynd i ffwrdd a dych chi'n byw wrth yr orsaf.
B: Dim problem. Cewch, wrth gwrs.
A: Diolch yn fawr.

A: Ga i fis i ffwrdd o'r gwaith os gwelwch chi'n dda?
B: Ga i ofyn pam?
A: Mae 'na gwrs Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn i baratoi at yr arholiad.
B: Wel... mae'n ddrwg gen i, dan ni'n rhy brysur. Ond mi gewch chi fynd i'r cwrs undydd yn y coleg.
A: O'r gorau, diolch.

-

A: Ga i fis i ffwrdd o'r gwaith os gwelwch chi'n dda?
B: Ga i ofyn pam?
A: Mae 'na gwrs Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn i baratoi at yr arholiad.
B: Wel... dan ni'n brysur iawn. Sgynnyn nhw gwrs wythnos?
A: Oes, dw i'n meddwl.
B: Mi gewch chi fynd ar y cwrs yna.

A: Gaf i fis i ffwrdd o'r gwaith os gwelwch chi'n dda?
B: Gaf i ofyn pam?
A: Mae cwrs Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn i baratoi at yr arholiad.
B: Wel... mae'n flin gyda fi, 'dyn ni'n rhy brysur. Ond cewch chi fynd i'r cwrs undydd yn y coleg.
A: O'r gorau, diolch.

-

A: Gaf i fis i ffwrdd o'r gwaith os gwelwch chi'n dda?
B: Gaf i ofyn pam?
A: Mae cwrs Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn i baratoi at yr arholiad.
B: Wel... 'dyn ni'n brysur iawn. Oes cwrs wythnos gyda nhw?
A: Oes, dw i'n meddwl.
B: Cewch chi fynd ar y cwrs yna.

A: Ga i fynd adre'n gynnar dydd Gwener?
B: Pam?
A: Dw i'n priodi dydd Sadwrn ac mae gen i lawer o waith paratoi.
B: Be? Llongyfarchiadau!
A: Diolch.
B: Mi gewch chi gymryd y diwrnod i gyd i ffwrdd! Wrth gwrs!
A: Diolch!

-

A: Ga i fynd adre'n gynnar dydd Gwener?
B: Pam?
A: Dw i'n priodi dydd Sadwrn ac mae gen i lawer o waith paratoi.
B: Be? Llongyfarchiadau!
A: Diolch.
B: Mi gewch chi adael am hanner awr wedi pedwar!
A: Diolch!

A: Gaf i fynd adre'n gynnar dydd Gwener?
B: Pam?
A: Dw i'n priodi dydd Sadwrn ac mae llawer o waith paratoi gyda fi.
B: Beth? Llongyfarchiadau!
A: Diolch.
B: Cewch chi gymryd y diwrnod i gyd i ffwrdd! Wrth gwrs!
A: Diolch!

-

A: Gaf i fynd adre'n gynnar dydd Gwener?
B: Pam?
A: Dw i'n priodi dydd Sadwrn ac mae llawer o waith paratoi gyda fi.
B: Beth? Llongyfarchiadau!
A: Diolch.
B: Cewch chi adael am hanner awr wedi pedwar!
A: Diolch!

A: Dw i newydd gael galwad ffôn. Mae'r ysgol wedi cau efo'r eira mawr.
B: Ydy, mae'r eira 'ma'n ofnadwy.
A: Ga i fynd rŵan i godi'r plant o'r ysgol? A ga i weithio adre wedyn?
B: Cei, wrth gwrs. Ond cymer ofal yn gyrru adre!

-

A: Dw i newydd gael galwad ffôn. Mae'r ysgol wedi cau efo'r eira mawr.
B: Ydy, mae'r eira 'ma'n ofnadwy.
A: Ga i fynd rŵan i godi'r plant o'r ysgol? A ga i weithio adre wedyn?
B: Na chei, wir! Mi fydd yr adran ddamweiniau yn brysur iawn – rhaid i bawb aros yma!

A: Dw i newydd gael galwad ffôn. Mae'r ysgol wedi cau gyda'r eira mawr.
B: Ydy, mae'r eira 'ma'n ofnadwy.
A: Gaf i fynd nawr i godi'r plant o'r ysgol? A gaf i weithio gartre wedyn?
B: Cei, wrth gwrs. Ond cymer ofal yn gyrru adre!

-

A: Dw i newydd gael galwad ffôn. Mae'r ysgol wedi cau gyda'r eira mawr.
B: Ydy, mae'r eira 'ma'n ofnadwy.
A: Gaf i fynd nawr i godi'r plant o'r ysgol? A gaf i weithio gartre wedyn?
B: Na chei, wir! Bydd yr adran ddamweiniau yn brysur iawn – rhaid i bawb aros yma!

A: Ga i fenthyg y llyfr yma am dri mis?
B: Ga i ofyn pam?
A: Mae'n llyfr gosod i arholiad Cymraeg fy mab i.
B: Mae'n ddrwg gen i, mae 'na restr aros am y llyfr yna.
Mi gewch chi ei gadw o am dair wythnos, a dim mwy.
A: O'r gorau, mi ddo i â fo'n ôl yn brydlon.

-

A: Ga i fenthyg y llyfr yma am dri mis?
B: Ga i ofyn pam?
A: Mae'n llyfr gosod i arholiad Cymraeg fy mab i.
B: Cewch â chroeso. Mae hwn yn llyfr ardderchog.
Rhaid i chi ei ddarllen o hefyd!
A: Mi wna i. Diolch yn fawr.

A: Gaf i fenthyg y llyfr yma am dri mis?
B: Gaf i ofyn pam?
A: Mae'n llyfr gosod i arholiad Cymraeg fy mab i.
B: Mae'n flin gyda fi, mae rhestr aros am y llyfr yna. Cewch chi ei gadw e am dair wythnos, a dim mwy.
A: O'r gorau, dof i â fe'n ôl yn brydlon.

-

A: Gaf i fenthyg y llyfr yma am dri mis?
B: Gaf i ofyn pam?
A: Mae'n llyfr gosod i arholiad Cymraeg fy mab i.
B: Cewch â chroeso. Mae hwn yn llyfr ardderchog. Rhaid i chi ei ddarllen e hefyd!
A: Gwnaf. Diolch yn fawr.

A: Ga i ddŵad â'r ci efo fi ar y daith gerdded dydd Sadwrn?
B: Na chewch, mae'n ddrwg gen i. Mae gan Sam ofn cŵn a dan ni wedi deud fod dim cŵn ar y daith.
A: Wel, fydda i ddim yn medru dŵad felly.
B: Bechod.
-
A: Ga i ddŵad â'r ci efo fi ar y daith gerdded dydd Sadwrn?
B: Dyna syniad da. Ond rhaid i chi gadw'r ci ar dennyn, ydy hynny'n iawn?
A: Ydy, wrth gwrs.
B: Ardderchog. Wela i chi dydd Sadwrn 'ta.

A: Gaf i ddod â'r ci gyda fi ar y daith gerdded dydd Sadwrn?
B: Na chewch, mae'n flin gyda fi. Mae ofn cŵn ar Sam a 'dyn ni wedi dweud fod dim cŵn ar y daith.
A: Wel, fydda i ddim yn gallu dod felly.
B: Dyna drueni.

-

A: Gaf i ddod â'r ci gyda fi ar y daith gerdded dydd Sadwrn?
B: Dyna syniad da. Ond rhaid i chi gadw'r ci ar dennyn, ydy hynny'n iawn?
A: Ydy, wrth gwrs.
B: Ardderchog. Gwela i chi dydd Sadwrn 'te.